

Pecyn Cyhoeddus



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
ceredigion.gov.uk

30/05/23

Annwyl Syr / Fadam

Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir Cyfarfod o Pwyllgor Safonau a Moeseg yn Hybrid - Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron /o bell trwy fideo-gynhadledda, Dydd Llun, 5 Mehefin 2023 am 10.00 am_i drafod y materion canlynol:

- 1. Ymddiheuriadau**
- 2. Personal and Prejudicial Interest**
- 3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Moeseg a Safonau a gynhaliwyd ar 03 Ebrill 2023 (Tudalennau 3 - 16)**
- 4. Cofnod o Gamau Gweithredu (Tudalennau 17 - 20)**
- 5. Ystyried ceisiadau am ollyngiadau gan y Cynghorwyr canlynol**
 - (i) Cyngorydd John Roberts, Cyngor Sir Ceredigion (Tudalennau 21 - 28)
 - (ii) Cyngorydd Rhodri Evans, Cyngor Sir Ceredigion (Tudalennau 29 - 36)
 - (iii) Cyngorydd Rhodri Evans, Cyngor Sir Ceredigion (Tudalennau 37 - 46)
- 6. Adroddiad Blynyddol 2023/23 y Pwyllgor Moeseg a Safonau (Tudalennau 47 - 86)**
- 7. Aseiad Cydymffurfio Arweinwyr y Grwpiau Gwleidyddol (Tudalennau 87 - 90)**
- 8. Penodi Is-Gadeirydd**
- 9. Cynllunio ar gyfer olyniaeth - aelodau annibynnol (Tudalennau 91 - 98)**
- 10. Hunanwerthuso'r Pwyllgor Moeseg a Safonau (Tudalennau 99 - 106)**
- 11. Diweddariad ar God Ymddygiad y Swyddog Monitro - Chwarter 4**

(Tudalennau 107 - 112)

12. Ffurflen ymateb i ymgynghoriad: WG47012 Argymhellion yr Adolygiad Annibynnol o'r Fframwaith Safonau Moesegol (adroddiad Richard Penn) (Tudalennau 113 - 120)
13. Adolygu Datganiad o Weledigaeth (Tudalennau 121 - 122)
14. Hyfforddiant - Cynghorau Tref a Chymuned yn 2024
15. Diweddariad ar faterion Panel Dyfarnu Cymru
16. Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Tudalennau 123 - 124)
17. Blaenraglen Waith (Tudalennau 125 - 130)

Atgoffir yr Aelodau y dylent lofnodi'r Gofrestr Bresenoldeb

Darperir Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd yn y cyfarfod hwn ac mae croeso i'r sawl a fydd yn bresennol ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y cyfarfod.

Yn gywir



Miss Lowri Edwards

Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd

**At: Gadeirydd ac Aelodau Pwyllgor Safonau a Moeseg
Weddill Aelodau'r Cyngor er gwybodaeth yn unig.**

Cofnodion Cyfarfod y PWYLLGOR MOESEG A SAFONAU a gynhaliwyd yn hybrid yn Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ac o bell drwy gynhadledd fideo ddydd Llun, 03 Ebrill 2023

YN BRESENNOL: Mrs Caroline White (Cadeirydd), Mr Alan Davies, Mrs Caryl Davies a Ms Carol Edwards (Aelodau Annibynnol)

Y Cynghorwyr Caryl Roberts a Gwyn Wigley Evans (Aelodau Etholedig)

Aelodau etholedig eraill a oedd yn bresennol: Y Cynghorwyr Elizabeth Evans, Wyn Evans a Gareth Lloyd.

HEFYD YN BRESENNOL:

Ms Elin Prysor (Swyddog Monitro)

Mrs Lisa Evans (Swyddog Craffu a Safonau)

Mrs Dana Jones (Swyddog y Gwasanaethau Democraidaidd a Safonau)

(2:00pm - 4.45pm)

1 Ymddiheuriadau

Ymddiheurodd y Cynghorwyr Delyth James a Jan Culley ynghyd â Mr John Weston am na fedrent ddod i'r cyfarfod.

2 Materion Personol

Dim.

3 Datgelu buddiannau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu

Datgelodd y Cynghorydd Caryl Roberts fuddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu ynghylch ceisiadau 7 (a) - 7(n).

Datgelodd y Cynghorydd Gwyn Wigley Evans fuddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu ynghylch ceisiadau 7 (a) - 7(n).

Datgelodd Mrs Dana Jones, Swyddog y Gwasanaethau Democraidaidd a Safonau, fuddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu ynghylch ceisiadau 7(q) - 7(x) a chymerodd Mrs Lisa Evans, Swyddog Craffu a Safonau, y cofnodion.

4 Cadarnhau cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Moeseg a Safonau a gynhaliwyd ar 25 Ionawr 2023

PENDERFYNWYD cadarnhau bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 25 Ionawr 2023 yn gywir, yn ddibynnol ar wneud y newidiadau canlynol yn y fersiwn Saesneg:-

(i) newid y paragraff cyntaf yn eitem 5 i *"highest standards of conduct"*

(ii) ychwanegu *"the"* cyn *"Appendix"* yn y pedwerydd paragraff yn eitem 6; a

(iii) newid eitem 9 i *"in relation to dispensations"*.

5 Materion yn codi

Tudalen 4

Hyfforddiant – Roedd hyfforddiant diweddarau wedi'i drefnu ar gyfer 18 Mai 2023. Roedd yr hyfforddiant yn orfodol ar gyfer Aelodau newydd ac roedd croeso i Aelodau eraill a oedd eisiau dod neu a oedd yn destun unrhyw gwynion.

Eitem 6 – Adroddodd y Swyddog Monitro y byddai'r Pwyllgor yn cofio cymeradwyo'r templed atodedig ar gyfer Arweinwyr y Grwpiau Gwleidyddol yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25/1/23.

Yn dilyn trafodaeth â'r Cadeirydd, cynigwyd y dylid newid paragraff 12 fel a ganlyn:

o:

“Bydd Arweinwyr y Grwpiau yn paratoi eu hadroddiad ar gyfer cyfarfod cyntaf y Pwyllgor Moeseg a Safonau a gynhelir ar ôl 1 Ebrill bob blwyddyn;”

i: “Bydd Arweinwyr y Grwpiau yn paratoi eu hadroddiad ar gyfer y Pwyllgor Moeseg a Safonau ar ôl 1 Ebrill bob blwyddyn;”

Cytunwyd i gadarnhau'r newid a nodwyd y byddai gweithdy'n cael ei drefnu i drafod y ddogfen hon ymhellach gydag Arweinwyr y Grwpiau.

Eitem 17 - Cynhaliwyd cyfarfod Fforwm Cadeiryddion Pwyllgorau Safonau Cymru ddau ddiwrnod ar ôl cyfarfod diwethaf y Pwyllgor. Byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 30 Mehefin 2023 ac roedd CLILC wedi dweud y byddai'r Cadeiryddion a'r Is-gadeiryddion yn cael hyfforddiant. Trafodwyd yr ymgynghoriad ynghylch adroddiad Penn a chafwyd cyfle i ymateb yn ffurfiol i'r ymgynghoriad hwnnw.

Eitem 11 - Cytunwyd y byddai'r eitem ynghylch cysoni'r trothwyon ar gyfer rhoddion / lletygarwch ar draws pob awdurdod yng Nghymru yn cael ei hadolygu eto ymhen chwe mis gan ei bod bellach yn rhan o'r ymgynghoriad ynghylch adroddiad Penn. Byddai'r eitem yn cael ei hychwanegu at y Flaenraglen Waith.

Eitem 13 - Derbyniwyd tri chynllun hyfforddi arall oddi wrth Gynghorau Tref a Chymuned. Byddai trafodaeth bellach ynghylch hyn o dan yr eitem 'Hyfforddiant' ar yr agenda.

6 Cofnod o'r Camau Gweithredu

CYTUNWYD i nodi'r Cofnod o'r Camau Gweithredu fel y'i cyflwynwyd, yn ddibynnol ar addasu'r ddogfen i gynnwys y materion uchod a oedd yn codi o'r cofnodion.

7 Ystyried ceisiadau am ollyngiad gan y Cynghorwyr canlynol:

a) Y Cynghorydd Gareth Lloyd, Cyngor Sir Ceredigion – cais TB

Derbyniwyd cais dyddiedig 23 Mawrth 2023 oddi wrth y Cynghorydd Gareth Lloyd, Cyngor Sir Ceredigion, a oedd yn gofyn am ollyngiad ynghylch y Rhybudd o Gynnig a fyddai'n cael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn am y ffordd yr oedd Llywodraeth Cymru'n delio â TB. Darllenodd y Cynghorydd Lloyd gwmpas a thelerau drafft y Rhybudd o Gynnig arfaethedig i'r Pwyllgor. Nododd ei fod yn byw ar fferm y teulu, Clettwr, lle'r oedd yn ffermio defaid a gwartheg.

Tudalen 5

Gofynnwyd i'r Cynghorydd Lloyd adael y Siambr er mwyn i'r Pwyllgor ystyried ei gais.

PENDERFYNWYD rhoi gollyngiad i'r Cynghorydd Lloyd siarad a phleidleisio ar y cynnig ynghylch TB a fyddai'n cael ei gyflwyno i'r Cyngor a'i ystyried yn y cyfarfod ar 20 Ebrill 2023, ar y sail bod cyfiawnhad i'r aelod gymryd rhan yn y busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo oherwydd rôl neu arbenigedd penodol yr aelod (Rheoliad 2(f)).

Rhodddwyd y gollyngiad ar gyfer cyfarfod y Cyngor ar 20 Ebrill 2023 ac unrhyw gyfarfodydd dilynol o'r Cyngor yn ôl yr angen, ond ni fyddai'r gollyngiad yn para fwy na chwe mis.

b) **Y Cynghorydd Euros Davies, Cyngor Sir Ceredigion - cais TB**

Derbyniwyd cais dyddiedig 23 Mawrth 2023 oddi wrth y Cynghorydd Euros Davies, Cyngor Sir Ceredigion, a oedd yn gofyn am ollyngiad ynghylch y Rhybudd o Gynnig a fyddai'n cael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn am y ffordd yr oedd Llywodraeth Cymru'n delio â TB. Roedd yn adeiladwr hunangyflogedig a oedd yn gwneud gwaith cynnal a chadw ar ffermydd a oedd yn cadw gwartheg. Roedd hefyd yn rhentu tir ac yn cadw praidd o ddefaid a cheffylau.

PENDERFYNWYD rhoi gollyngiad i'r Cynghorydd Davies siarad a phleidleisio ar y cynnig ynghylch TB a fyddai'n cael ei gyflwyno i'r Cyngor a'i ystyried yn y cyfarfod ar 20 Ebrill 2023, ar y sail bod cyfiawnhad i'r aelod gymryd rhan yn y busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo oherwydd rôl neu arbenigedd penodol yr aelod (Rheoliad 2(f)).

Rhodddwyd y gollyngiad ar gyfer cyfarfod y Cyngor ar 20 Ebrill 2023 ac unrhyw gyfarfodydd dilynol o'r Cyngor yn ôl yr angen, ond ni fyddai'r gollyngiad yn para fwy na chwe mis.

c) **Y Cynghorydd Gwyn James, Cyngor Sir Ceredigion - cais TB**

Derbyniwyd cais dyddiedig 23 Mawrth 2023 oddi wrth y Cynghorydd Gwyn James, Cyngor Sir Ceredigion, a oedd yn gofyn am ollyngiad ynghylch y Rhybudd o Gynnig a fyddai'n cael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn am y ffordd yr oedd Llywodraeth Cymru'n delio â TB. Roedd yn ffermwr llaeth mewn partneriaeth â'i fab ym Mron y Glyn, Glynarthen.

PENDERFYNWYD rhoi gollyngiad i'r Cynghorydd James siarad a phleidleisio ar y cynnig ynghylch TB a fyddai'n cael ei gyflwyno i'r Cyngor a'i ystyried yn y cyfarfod ar 20 Ebrill 2023, ar y sail bod cyfiawnhad i'r aelod gymryd rhan yn y busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo oherwydd rôl neu arbenigedd penodol yr aelod (Rheoliad 2(f)).

Rhodddwyd y gollyngiad ar gyfer cyfarfod y Cyngor ar 20 Ebrill 2023 ac unrhyw gyfarfodydd dilynol o'r Cyngor yn ôl yr angen, ond ni fyddai'r gollyngiad yn para fwy na chwe mis.

d) **Y Cynghorydd Geraint Hughes, Cyngor Sir Ceredigion – cais TB**

Tudalen 6

Derbyniwyd cais dyddiedig 24 Mawrth 2023 oddi wrth y Cynghorydd Geraint Hughes, Cyngor Sir Ceredigion, a oedd yn gofyn am ollyngiad ynghylch y Rhybudd o Gynnig a fyddai'n cael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn am y ffordd yr oedd Llywodraeth Cymru'n delio â TB. Roedd ganddo gysylltiadau â ffermwyr a oedd wedi'u heffeithio gan TB a'r ffordd y câi ei reoli yn y sector amaethyddol yng Nghymru.

PENDERFYNWYD rhoi gollyngiad i'r Cynghorydd Hughes siarad a phleidleisio ar y cynnig ynghylch TB a fyddai'n cael ei gyflwyno i'r Cyngor a'i ystyried yn y cyfarfod ar 20 Ebrill 2023, ar y sail na fyddai cyfranogiad yr aelod yn y busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo yn niweidio hyder y cyhoedd yn y modd y mae busnes yr awdurdod perthnasol yn cael ei gynnal (Rheoliad 2(d)).

Rhodddwyd y gollyngiad ar gyfer cyfarfod y Cyngor ar 20 Ebrill 2023 ac unrhyw gyfarfodydd dilynol o'r Cyngor yn ôl yr angen, ond ni fyddai'r gollyngiad yn para fwy na chwe mis.

e) **Y Cynghorydd Wyn Evans, Cyngor Sir Ceredigion – cais TB**

Derbyniwyd cais dyddiedig 24 Mawrth 2023 oddi wrth y Cynghorydd Wyn Evans, Cyngor Sir Ceredigion, a oedd yn gofyn am ollyngiad ynghylch y Rhybudd o Gynnig a fyddai'n cael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn am y ffordd yr oedd Llywodraeth Cymru'n delio â TB. Roedd y Cynghorydd Evans yn bresennol yn y cyfarfod i gyflwyno ei gais. Roedd yn byw ar fferm y teulu, Nant Byr Uchaf, lle'r oedd yn ffermio defaid a gwartheg.

Gofynnwyd i'r Cynghorydd Evans adael y gynhadledd fideo er mwyn i'r Pwyllgor ystyried ei gais.

PENDERFYNWYD rhoi gollyngiad i'r Cynghorydd Evans siarad a phleidleisio ar y cynnig ynghylch TB a fyddai'n cael ei gyflwyno i'r Cyngor a'i ystyried yn y cyfarfod ar 20 Ebrill 2023, ar y sail bod cyfiawnhad i'r aelod gymryd rhan yn y busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo oherwydd rôl neu arbenigedd penodol yr aelod (Rheoliad 2(f)).

Rhodddwyd y gollyngiad ar gyfer cyfarfod y Cyngor ar 20 Ebrill 2023 ac unrhyw gyfarfodydd dilynol o'r Cyngor yn ôl yr angen, ond ni fyddai'r gollyngiad yn para fwy na chwe mis.

f) **Y Cynghorydd Gwyn Wigley Evans, Cyngor Sir Ceredigion – cais TB**

Derbyniwyd cais dyddiedig 23 Mawrth 2023 oddi wrth y Cynghorydd Gwyn Wigley Evans, Cyngor Sir Ceredigion, a oedd yn gofyn am ollyngiad ynghylch y Rhybudd o Gynnig a fyddai'n cael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn am y ffordd yr oedd Llywodraeth Cymru'n delio â TB. Roedd yn byw ar fferm y teulu, Benglog, lle'r oedd yn ffermio defaid a gwartheg.

PENDERFYNWYD rhoi gollyngiad i'r Cynghorydd Wigley Evans siarad a phleidleisio ar y cynnig ynghylch TB a fyddai'n cael ei gyflwyno i'r Cyngor a'i ystyried yn y cyfarfod ar 20 Ebrill 2023, ar y sail bod cyfiawnhad i'r aelod gymryd rhan yn y busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo oherwydd rôl neu arbenigedd penodol yr aelod (Rheoliad 2(f)).

Tudalen 7

Rhodddwyd y gollyngiad ar gyfer cyfarfod y Cyngor ar 20 Ebrill 2023 ac unrhyw gyfarfodydd dilynol o'r Cyngor yn ôl yr angen, ond ni fyddai'r gollyngiad yn para fwy na chwe mis.

- g) **Y Cynghorydd Meirion Davies, Cyngor Sir Ceredigion - cais TB**
Derbyniwyd cais dyddiedig 23 Mawrth 2023 oddi wrth y Cynghorydd Meirion Davies, Cyngor Sir Ceredigion, a oedd yn gofyn am ollyngiad ynghylch y Rhybudd o Gynnig a fyddai'n cael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn am y ffordd yr oedd Llywodraeth Cymru'n delio â TB. Roedd TB a'r ffordd y câi ei reoli yn y sector amaethyddol yn cael effaith ar ffermio.

PENDERFYNWYD rhoi gollyngiad i'r Cynghorydd Davies siarad a phleidleisio ar y cynnig ynghylch TB a fyddai'n cael ei gyflwyno i'r Cyngor a'i ystyried yn y cyfarfod ar 20 Ebrill 2023, ar y sail bod cyfiawnhad i'r aelod gymryd rhan yn y busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo oherwydd rôl neu arbenigedd penodol yr aelod (Rheoliad 2(f)).

Rhodddwyd y gollyngiad ar gyfer cyfarfod y Cyngor ar 20 Ebrill 2023 ac unrhyw gyfarfodydd dilynol o'r Cyngor yn ôl yr angen, ond ni fyddai'r gollyngiad yn para fwy na chwe mis.

- h) **Y Cynghorydd Ifan Davies, Cyngor Sir Ceredigion - cais TB**
Derbyniwyd cais dyddiedig 23 Mawrth 2023 oddi wrth y Cynghorydd Ifan Davies, Cyngor Sir Ceredigion, a oedd yn gofyn am ollyngiad ynghylch y Rhybudd o Gynnig a fyddai'n cael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn am y ffordd yr oedd Llywodraeth Cymru'n delio â TB. Roedd yn ffermwr bïff a defaid ym Mhontrhydfendigaid.

PENDERFYNWYD rhoi gollyngiad i'r Cynghorydd Davies siarad a phleidleisio ar y cynnig ynghylch TB a fyddai'n cael ei gyflwyno i'r Cyngor a'i ystyried yn y cyfarfod ar 20 Ebrill 2023, ar y sail bod cyfiawnhad i'r aelod gymryd rhan yn y busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo oherwydd rôl neu arbenigedd penodol yr aelod (Rheoliad 2(f)).

Rhodddwyd y gollyngiad ar gyfer cyfarfod y Cyngor ar 20 Ebrill 2023 ac unrhyw gyfarfodydd dilynol o'r Cyngor yn ôl yr angen, ond ni fyddai'r gollyngiad yn para fwy na chwe mis.

- i) **Y Cynghorydd Bryan Davies, Cyngor Sir Ceredigion - cais TB**
Derbyniwyd cais dyddiedig 23 Mawrth 2023 oddi wrth y Cynghorydd Bryan Davies, Cyngor Sir Ceredigion, a oedd yn gofyn am ollyngiad ynghylch y Rhybudd o Gynnig a fyddai'n cael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn am y ffordd yr oedd Llywodraeth Cymru'n delio â TB. Roedd yn ffermwr gwartheg bïff.

PENDERFYNWYD rhoi gollyngiad i'r Cynghorydd Davies siarad a phleidleisio ar y cynnig ynghylch TB a fyddai'n cael ei gyflwyno i'r Cyngor a'i ystyried yn y cyfarfod ar 20 Ebrill 2023, ar y sail bod cyfiawnhad i'r aelod gymryd rhan yn y busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo oherwydd rôl neu arbenigedd penodol yr aelod (Rheoliad 2(f)).

Tudalen 8

Rhodddwyd y gollyngiad ar gyfer cyfarfod y Cyngor ar 20 Ebrill 2023 ac unrhyw gyfarfodydd dilynol o'r Cyngor yn ôl yr angen, ond ni fyddai'r gollyngiad yn para fwy na chwe mis.

j) **Y Cynghorydd Eryl Evans, Cyngor Sir Ceredigion – cais TB**

Derbyniwyd cais dyddiedig 23 Mawrth 2023 oddi wrth y Cynghorydd Eryl Evans, Cyngor Sir Ceredigion, a oedd yn gofyn am ollyngiad ynghylch y Rhybudd o Gynnig a fyddai'n cael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn am y ffordd yr oedd Llywodraeth Cymru'n delio â TB. Roedd hi'n ffermwr bîff a defaid yn ei phrif fan preswyl a dyna oedd prif fywoliaeth y teulu.

PENDERFYNWYD rhoi gollyngiad i'r Cynghorydd Evans siarad a phleidleisio ar y cynnig ynghylch TB a fyddai'n cael ei gyflwyno i'r Cyngor a'i ystyried yn y cyfarfod ar 20 Ebrill 2023, ar y sail bod cyfiawnhad i'r aelod gymryd rhan yn y busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo oherwydd rôl neu arbenigedd penodol yr aelod (Rheoliad 2(f)).

Rhodddwyd y gollyngiad ar gyfer cyfarfod y Cyngor ar 20 Ebrill 2023 ac unrhyw gyfarfodydd dilynol o'r Cyngor yn ôl yr angen, ond ni fyddai'r gollyngiad yn para fwy na chwe mis.

k) **Y Cynghorydd Rhodri Evans, Cyngor Sir Ceredigion - cais TB**

Derbyniwyd cais dyddiedig 23 Mawrth 2023 oddi wrth y Cynghorydd Rhodri Evans, Cyngor Sir Ceredigion, a oedd yn gofyn am ollyngiad ynghylch y Rhybudd o Gynnig a fyddai'n cael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn am y ffordd yr oedd Llywodraeth Cymru'n delio â TB. Roedd yn ffermwr bîff a defaid yn Nhregaron.

PENDERFYNWYD rhoi gollyngiad i'r Cynghorydd Evans siarad a phleidleisio ar y cynnig ynghylch TB a fyddai'n cael ei gyflwyno i'r Cyngor a'i ystyried yn y cyfarfod ar 20 Ebrill 2023, ar y sail bod cyfiawnhad i'r aelod gymryd rhan yn y busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo oherwydd rôl neu arbenigedd penodol yr aelod (Rheoliad 2(f)).

Rhodddwyd y gollyngiad ar gyfer cyfarfod y Cyngor ar 20 Ebrill 2023 ac unrhyw gyfarfodydd dilynol o'r Cyngor yn ôl yr angen, ond ni fyddai'r gollyngiad yn para fwy na chwe mis.

l) **Y Cynghorydd Catrin M S Davies, Cyngor Sir Ceredigion - cais TB**

Derbyniwyd cais dyddiedig 23 Mawrth 2023 oddi wrth y Cynghorydd Catrin M S Davies, Cyngor Sir Ceredigion, a oedd yn gofyn am ollyngiad ynghylch y Rhybudd o Gynnig a fyddai'n cael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn am y ffordd yr oedd Llywodraeth Cymru'n delio â TB. Roedd hi'n berchen ar fferm a oedd yn cael ei ffermio gan ei chwaer ac roedd ei phartner yn ffermwr.

PENDERFYNWYD rhoi gollyngiad i'r Cynghorydd M S Davies siarad a phleidleisio ar y cynnig ynghylch TB a fyddai'n cael ei gyflwyno i'r Cyngor a'i ystyried yn y cyfarfod ar 20 Ebrill 2023, ar y sail na fyddai cyfranogiad yr aelod yn y busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo yn niweidio hyder y cyhoedd yn y modd y mae busnes yr awdurdod perthnasol yn cael ei gynnal (Rheoliad 2(d)).

Tudalen 9

Rhodddwyd y gollyngiad ar gyfer cyfarfod y Cyngor ar 20 Ebrill 2023 ac unrhyw gyfarfodydd dilynol o'r Cyngor yn ôl yr angen, ond ni fyddai'r gollyngiad yn para fwy na chwe mis.

- m) **Y Cynghorydd Ceris Jones, Cyngor Sir Ceredigion - cais TB**
Derbyniwyd cais dyddiedig 23 Mawrth 2023 oddi wrth y Cynghorydd Ceris Jones a oedd yn gofyn am ollyngiad ynghylch y Rhybudd o Gynnig a fyddai'n cael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn am y ffordd yr oedd Llywodraeth Cymru'n delio â TB. Roedd ei thad-cu a'i brawd yn ffermwyr biff.

PENDERFYNWYD rhoi gollyngiad i'r Cynghorydd Jones siarad a phleidleisio ar y cynnig ynghylch TB a fyddai'n cael ei gyflwyno i'r Cyngor a'i ystyried yn y cyfarfod ar 20 Ebrill 2023, ar y sail na fyddai cyfranogiad yr aelod yn y busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo yn niweidio hyder y cyhoedd yn y modd y mae busnes yr awdurdod perthnasol yn cael ei gynnal (Rheoliad 2(d)).

Rhodddwyd y gollyngiad ar gyfer cyfarfod y Cyngor ar 20 Ebrill 2023 ac unrhyw gyfarfodydd dilynol o'r Cyngor yn ôl yr angen, ond ni fyddai'r gollyngiad yn para fwy na chwe mis.

- n) **Y Cynghorydd Wyn Thomas, Cyngor Sir Ceredigion – cais TB**
Derbyniwyd cais hwyr dyddiedig 30 Mawrth 2023 oddi wrth y Cynghorydd Wyn Thomas, Cyngor Sir Ceredigion, a oedd yn gofyn am ollyngiad ynghylch y Rhybudd o Gynnig a fyddai'n cael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn am y ffordd yr oedd Llywodraeth Cymru'n delio â TB. Roedd yn berchen ar wartheg.

PENDERFYNWYD rhoi gollyngiad i'r Cynghorydd Thomas siarad a phleidleisio ar y cynnig ynghylch TB a fyddai'n cael ei gyflwyno i'r Cyngor a'i ystyried yn y cyfarfod ar 20 Ebrill 2023, ar y sail bod cyfiawnhad i'r aelod gymryd rhan yn y busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo oherwydd rôl neu arbenigedd penodol yr aelod (Rheoliad 2(f)).

Rhodddwyd y gollyngiad ar gyfer cyfarfod y Cyngor ar 20 Ebrill 2023 ac unrhyw gyfarfodydd dilynol o'r Cyngor yn ôl yr angen, ond ni fyddai'r gollyngiad yn para fwy na chwe mis.

- o) **Y Cynghorydd Euros Davies, Cyngor Sir Ceredigion**
Nodwyd bod y cais wedi'i dynnu'n ôl.

- p) **Y Cynghorydd Elizabeth Evans, Cyngor Sir Ceredigion**
Derbyniwyd cais am ollyngiad dyddiedig 25 Mawrth 2023 oddi wrth y Cynghorydd Elizabeth Evans. Roedd y cais yn ymwneud â'r gwaith o amddiffyn prif harbwr Aberaeron a Phwll Cam rhag llifogydd. Roedd y Cynghorydd Evans yn dymuno cysylltu â'r swyddogion ar ran ei thrigolion i drafod gwahanol agweddau ar y gwaith ar yr harbwr gan ofyn unrhyw gwestiynau perthnasol. Roedd ei mam yn byw gyferbyn â Phwll Cam.

Roedd y Cynghorydd Evans yn bresennol yn y cyfarfod i gyflwyno ei chais.

Tudalen 10

Gofynnwyd i'r Cynghorydd Evans adael y gynhadledd fideo fel y gallai'r Pwyllgor ystyried ei chais.

PENDERFYNWYD rhoi gollyngiad i'r Cynghorydd Evans siarad yn unig ar y sail bod natur buddiant yr aelod yn golygu na fyddai cyfranogiad yr aelod yn y busnes y mae'r buddiant yn ymwneud ag ef yn niweidio hyder y cyhoedd wrth gynnal busnes yr awdurdod perthnasol; (rheoliad 2 (d)). Rhoddwyd y gollyngiad am gyfnod o 12 mis.

p) **Y Cynghorydd Elizabeth Evans, Cyngor Tref Aberaeron**

Derbyniwyd cais am ollyngiad dyddiedig 25 Mawrth 2023 oddi wrth y Cynghorydd Elizabeth Evans. Roedd y cais yn ymwneud â'r gwaith o amddiffyn prif harbwr Aberaeron a Phwll Cam rhag llifogydd. Roedd y Cynghorydd Evans yn dymuno cysylltu â'r swyddogion ar ran ei thrigolion i drafod gwahanol agweddau ar y gwaith ar yr harbwr gan ofyn unrhyw gwestiynau perthnasol. Roedd ei mam yn byw gyferbyn â Phwll Cam.

Gofynnwyd i'r Cynghorydd Evans adael y gynhadledd fideo fel y gallai'r Pwyllgor ystyried ei chais.

PENDERFYNWYD rhoi gollyngiad i'r Cynghorydd Evans siarad yn unig ar y sail bod natur buddiant yr aelod yn golygu na fyddai cyfranogiad yr aelod yn y busnes y mae'r buddiant yn ymwneud ag ef yn niweidio hyder y cyhoedd wrth gynnal busnes yr awdurdod perthnasol; (rheoliad 2 (d)). Rhoddwyd y gollyngiad am gyfnod o 12 mis.

q) **Y Cynghorydd Matthew Vaux, Cyngor Sir Ceredigion**

Derbyniwyd cais am ollyngiad dyddiedig 27 Mawrth 2023 oddi wrth y Cynghorydd Matthew Vaux. Roedd y cais yn ymwneud â'r trefniadau ynghylch casglu gwastraff yng Ngheinewydd a'r trafodaethau ynghylch lleoli a chyflenwi biniau cyhoeddus yn y dref. Roedd y Cynghorydd Vaux yn berchen ar siop tecawê a bwyty pysgod a sglodion *The Captains Rendezvous* yng Ngheinewydd.

PENDERFYNWYD rhoi gollyngiad i'r Cynghorydd Vaux siarad yn unig ar y sail bod natur buddiant yr aelod yn golygu na fyddai cyfranogiad yr aelod yn y busnes y mae'r buddiant yn ymwneud ag ef yn niweidio hyder y cyhoedd wrth gynnal busnes yr awdurdod perthnasol; (rheoliad 2 (d)). Rhoddwyd y gollyngiad am gyfnod o 12 mis.

r) **Y Cynghorydd Matthew Vaux, Cyngor Tref Ceinewydd**

Derbyniwyd cais am ollyngiad dyddiedig 27 Mawrth 2023 oddi wrth y Cynghorydd Matthew Vaux. Roedd y cais yn ymwneud â'r trefniadau ynghylch casglu gwastraff yng Ngheinewydd a'r trafodaethau ynghylch lleoli a chyflenwi biniau cyhoeddus yn y dref. Roedd y Cynghorydd Vaux yn berchen ar siop tecawê a bwyty pysgod a sglodion *The Captains Rendezvous* yng Ngheinewydd.

PENDERFYNWYD rhoi gollyngiad i'r Cynghorydd Vaux siarad yn unig ar y sail bod natur buddiant yr aelod yn golygu na fyddai cyfranogiad yr aelod yn y busnes y mae'r buddiant yn ymwneud ag ef yn niweidio hyder y cyhoedd wrth gynnal busnes yr awdurdod perthnasol; (rheoliad 2 (d)). Rhoddwyd y gollyngiad am gyfnod o 12 mis.

s) **Y Cynghorydd Brett Stones, Cyngor Tref Ceinewydd**

Derbyniwyd cais am ollyngiad dyddiedig 21 Mawrth 2023 oddi wrth y Cynghorydd Brett Stones ynghylch ceisiadau cynllunio ar gyfer llety gwyliau (llety hunanarlwyo, cabanau, carafanau ac ail gartrefi). Roedd yn berchen ar fusnes mordeithiau gwyllo Dolffiniaid, siop gwerthu Pasteiod a llety gwyliau yng Ngheinewydd.

PENDERFYNWYD rhoi gollyngiad i'r Cynghorydd Stones siarad a phleidleisio ar y sail nad oes gan lai na hanner aelodau'r awdurdod perthnasol neu bwyllgor yr awdurdod (yn unol â'r achos dan sylw) a fydd yn ystyried y busnes, fudd sy'n ymwneud â'r busnes hwnnw; (rheoliad 2 (a)). Rhoddwyd y gollyngiad am gyfnod o 12 mis.

t) **Y Cynghorydd Jennifer Davies, Cyngor Tref Ceinewydd**

Derbyniwyd cais am ollyngiad dyddiedig 21 Mawrth 2023 oddi wrth y Cynghorydd Jennifer Davies ynghylch ceisiadau cynllunio ar gyfer llety gwyliau gan gynnwys llety hunanarlwyo, ail gartrefi, podiau glampio a charafanau. Roedd ei merch-yng-nghyfraith yn berchen ar eiddo hunanarlwyo.

PENDERFYNWYD rhoi gollyngiad i'r Cynghorydd Davies siarad a phleidleisio ar y sail nad oes gan lai na hanner aelodau'r awdurdod perthnasol neu bwyllgor yr awdurdod (yn unol â'r achos dan sylw) a fydd yn ystyried y busnes, fudd sy'n ymwneud â'r busnes hwnnw; (rheoliad 2 (a)). Rhoddwyd y gollyngiad am gyfnod o 12 mis.

u) **Y Cynghorydd Julian Evans, Cyngor Tref Ceinewydd**

Derbyniwyd cais am ollyngiad dyddiedig 21 Mawrth 2023 oddi wrth y Cynghorydd Julian Evans ynghylch ceisiadau cynllunio ar gyfer llety gwyliau gan gynnwys llety hunanarlwyo, ail gartrefi, podiau glampio a charafanau. Roedd yn berchen ar lety hunanarlwyo yng Ngheinewydd

PENDERFYNWYD rhoi gollyngiad i'r Cynghorydd Evans siarad a phleidleisio ar y sail nad oes gan lai na hanner aelodau'r awdurdod perthnasol neu bwyllgor yr awdurdod (yn unol â'r achos dan sylw) a fydd yn ystyried y busnes, fudd sy'n ymwneud â'r busnes hwnnw; (rheoliad 2 (a)). Rhoddwyd y gollyngiad am gyfnod o 12 mis.

v) **Y Cynghorydd Sioned Davies, Cyngor Tref Ceinewydd**

Derbyniwyd cais am ollyngiad dyddiedig 21 Mawrth 2023 oddi wrth y Cynghorydd Sioned Davies ynghylch ceisiadau cynllunio ar gyfer llety gwyliau gan gynnwys llety hunanarlwyo, ail gartrefi, podiau glampio a charafanau. Roedd ei thad yn berchen ar lety hunanarlwyo yng Ngheinewydd

Tudalen 12

PENDERFYNWYD rhoi gollyngiad i'r Cynghorydd Davies siarad a phleidleisio ar y sail nad oes gan lai na hanner aelodau'r awdurdod perthnasol neu bwyllgor yr awdurdod (yn unol â'r achos dan sylw) a fydd yn ystyried y busnes, fudd sy'n ymwneud â'r busnes hwnnw; (rheoliad 2 (a)). Rhoddwyd y gollyngiad am gyfnod o 12 mis.

w) **Y Cynghorydd Tomas Davies, Cyngor Tref Ceinewydd**

Derbyniwyd cais am ollyngiad dyddiedig 21 Mawrth 2023 oddi wrth y Cynghorydd Tomas Davies ynghylch ceisiadau cynllunio ar gyfer llety gwyliau gan gynnwys llety hunanarlwyo, ail gartrefi, podiau glampio a charafanau. Roedd yn Gyfarwyddwr ar Barc Gwyliau Pencnwc ger Ceinewydd, Caerfelin yn Aberporth a New Minterton yn Ninbych-y-pysgod. Roedd ganddo hefyd ddau eiddo a oedd yn cael eu gosod ar rent yn ardal Ceinewydd.

PENDERFYNWYD rhoi gollyngiad i'r Cynghorydd Davies siarad a phleidleisio ar y sail nad oes gan lai na hanner aelodau'r awdurdod perthnasol neu bwyllgor yr awdurdod (yn unol â'r achos dan sylw) a fydd yn ystyried y busnes, fudd sy'n ymwneud â'r busnes hwnnw; (rheoliad 2 (a)). Rhoddwyd y gollyngiad am gyfnod o 12 mis.

x) **Y Cynghorydd Ywain Davies, Cyngor Tref Ceinewydd**

Derbyniwyd cais am ollyngiad dyddiedig 21 Mawrth 2023 oddi wrth y Cynghorydd Ywain Davies ynghylch ceisiadau cynllunio ar gyfer llety gwyliau gan gynnwys llety hunanarlwyo, ail gartrefi, podiau glampio a charafanau. Ef oedd perchennog/Cyfarwyddwr Maes Carafanau Wern Mill, Gilfachreda, Ceinewydd. Roedd ganddo lety gwyliau – carafanau teithiol, carafanau sefydlog, cartrefi gwyliau a chabanau gwyliau. Roedd gan ei deulu hefyd lety gwyliau yn lleol. Gallai ceisiadau cynllunio gael effaith uniongyrchol neu anuniongyrchol ar ei fusnes (cadarnhaol neu negyddol). Gallai ei farn/penderfyniad gael ei ystyried yn unochrog neu'n ddiduedd gan y cyhoedd neu'r rhai a fyddai'n cyflwyno'r cais.

PENDERFYNWYD rhoi gollyngiad i'r Cynghorydd Davies siarad a phleidleisio ar y sail nad oes gan lai na hanner aelodau'r awdurdod perthnasol neu bwyllgor yr awdurdod (yn unol â'r achos dan sylw) a fydd yn ystyried y busnes, fudd sy'n ymwneud â'r busnes hwnnw; (rheoliad 2 (a)). Rhoddwyd y gollyngiad am gyfnod o 12 mis.

8 **Adroddiad am ddiweddarau'r ffurflen gais am ollyngiad**

CYTUNWYD i nodi'r newid a oedd wedi'i wneud i'r ffurflen gais am ollyngiad, fel y'i cyflwynwyd.

9 **Y diweddaraf am recriwtio aelod annibynnol**

Dywedodd y Swyddog Monitro fod y Cadeirydd presennol Mrs Caroline White wedi'i phenodi yn y lle cyntaf ar 30/7/2013 cyn iddi gael ei hail-benodi ar 30/7/2019. Byddai ei chyfnod yn y swydd yn dod i ben ar 29/7/2023. Nid oedd Mrs Caroline Wride bellach yn gymwys i gael ei hailbenodi.

Tudalen 13

O ganlyniad, roedd angen recriwtio aelod annibynnol newydd i'r Pwyllgor Moeseg a Safonau er mwyn cynnal cyfansoddiad y Pwyllgor, fel y nodir yng Nghyfansoddiad y Cyngor, ac fel sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth.

Yn dilyn y broses recriwtio, dewiswyd Gail Storr yn Aelod Annibynnol/Aelod Lleyg i'r Pwyllgor Moeseg a Safonau. Byddai'r aelod lleyg newydd yn cael ei phenodi am un tymor o 6 blynedd, gyda'r opsiwn i'w hailbenodi am ail dymor o 4 blynedd, hyd at ddim mwy na dau dymor gweinyddol yn olynol, gan gynnwys y tymor presennol (hyd at 10 mlynedd, hyd at 29 Gorffennaf 2032).

Penderfynodd y Cyngor, yn ei gyfarfod ar 26 Ionawr, gymeradwyo penodiad Gail Storr fel Aelod Annibynnol / Aelod Lleyg i'r Pwyllgor Moeseg a Safonau o 30 Gorffennaf 2023 hyd at 29 Gorffennaf 2029.

CYTUNWYD i nodi'r diweddariad a roddwyd.

10 **Penodi Cadeirydd / Is-gadeirydd**

Dywedodd y Swyddog Monitro mai hwn fyddai cyfarfod olaf y Cadeirydd presennol gan y byddai ei chyfnod yn y swydd yn dod i ben ar 24 Gorffennaf 2023. Awgrymwyd y gellid penodi Cadeirydd newydd o 01 Mai 2023 ymlaen neu o 01 Mehefin 2023 ymlaen. Dywedwyd bod un Aelod annibynnol wedi cytuno i roi ei henw ymlaen, sef Mrs Caryl Davies.

Cynigiodd y Cynghorydd Gwyn Wigley Evans y dylai Mrs Caryl Davies gael ei phenodi'n Gadeirydd o 01 Mai 2023 ymlaen am gyfnod o bedair blynedd (1/5/23-30/4/27). Cafodd hyn ei eilio gan Mr Alan Davies.

Byddai cyfnod yr Is-gadeirydd yn ei swydd yn dod i ben ar 30 Gorffennaf 2023. PENDERFYNWYD gohirio'r penderfyniad ynghylch penodi Is-gadeirydd tan gyfarfod nesaf y Pwyllgor gan nad oedd yr Is-gadeirydd yn bresennol.

11 **Adolygu'r Datganiad o Weledigaeth**

Rhannwyd Datganiad o Weledigaeth presennol y Pwyllgor Moeseg a Safonau gydag aelodau'r Pwyllgor ar 22 Chwefror 2023.

Roedd Datganiad o Weledigaeth y Pwyllgor Moeseg a Safonau fel a ganlyn:

"Ein gweledigaeth yw y bydd gan bobl Ceredigion ffydd ac ymddiriedaeth fod pob un a etholwyd i weithredu mewn llywodraeth leol yn ein sir yn cynnal y safonau moesegol a moesol uchaf wrth wasanaethu eu cymuned".

Gofynnodd y Swyddog Safonau i'r aelodau rannu unrhyw sylwadau/newidiadau arfaethedig y byddent yn dymuno gweld yn cael eu gwneud.

Cafwyd yr ymatebion canlynol:

* Cytunodd tri aelod o'r pwyllgor fod y datganiad o weledigaeth yn dal yn addas i'r diben.

* Cynigiodd un o'r aelodau newid bychan a fyddai'n golygu ychwanegu "a busnesau" ar ôl "bobl".

Tudalen 14

CYTUNWYD i ohirio'r penderfyniad ynghylch geiriad y datganiad fel y gellid ystyried y cynnig i ychwanegu'r geiriau 'busnesau a sefydliadau' ar ôl 'bobl'.

12 **Diweddariad ar faterion Panel Dyfarnu Cymru**

CYTUNWYD i nodi dau o'r penderfyniad a wnaed gan Banel Dyfarnu Cymru. Roedd y rhain wedi'u hanfon ar e-bost ar ôl cyhoeddi'r agenda:-

- Y Cyn-Gynghorydd Sheila Jenkins, Cyngor Cymuned Sant Harmon
- Y Cynghorydd Paul Rogers, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Cyngor Cymuned Brymbo

13 **Diweddariad ar faterion yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus**

CYTUNWYD i nodi cynnwys yr adroddiad a gyflwynwyd.

Dywedwyd bod cyfarfodydd Pwyllgor Moeseg a Safonau Cyngor Sir Penfro yn cael eu gweddarlledu ac y gellid defnyddio'r cyfarfodydd hyn fel adnodd hyfforddiant ar gyfer y Pwyllgor.

Cytunwyd hefyd y byddai'r adroddiad yn cael ei ddsbarthu i Glercod y Cynghorau Tref a Chymuned ar ôl iddo gael ei gyflwyno yn y Pwyllgor.

14 **Hyfforddiant**

Dywedwyd y byddai hyfforddiant diweddar ynghylch y Cod i Gynghorwyr yn cael ei gynnal ar gyfer y Cynghorwyr Sir ar 18 Mai 2023 fel y nodwyd eisoes o dan faterion yn codi.

Yn dilyn yr hyfforddiant ynghylch gwrandawiadau ym mis Medi 2022, byddai fideo o wrandawriad yn cael ei darparu fel y gellid ei ystyried. Dywedodd Caryl Davies y byddai gwyllo gwrandawriad go iawn yn rhoi persbectif gwahanol i'r Pwyllgor o ran cynnal gwrandawriad.

Roedd un deg chwech o Gynghorau Tref a Chymuned wedi darparu eu cynlluniau hyfforddiant. Dywedodd y Swyddog Monitro ei bod yn ofyniad statudol i'r cynlluniau hyfforddi gael eu cyhoeddi ar wefannau'r Cynghorau Cymuned. Dim ond yr hyfforddiant yr oedd yr aelodau wedi'i wneud oedd llawer o'r Cynghorau wedi'i nodi ac nid oeddent wedi darparu cynllun ar gyfer hyfforddiant y dyfodol.

Roedd y cynlluniau a ddarparwyd gan nifer o'r Cynghorau Tref a Chymuned yn gofyn am hyfforddiant diweddar ar y cod. Byddai hyn yn cael ei ddarparu yn 2024.

Byddai Cyngor Cymuned Llansantffraed yn derbyn hyfforddiant am y Cod Ymddygiad ar 2/5/23, yn dilyn argymhelliad Panel Dyfarnu Cymru ar ôl achos y Cyn-Gynghorydd Vaughan.

15 **Ystyried unrhyw gais arall am ollyngiad a dderbyniwyd ers cyhoeddi'r agenda**

Roedd cais hwyr y Cynghorydd Wyn Thomas eisoes wedi'i ystyried o dan eitem 7.

16 **Blaenraglen Waith**

CYTUNWYD y byddai'r canlynol yn cael ei ychwanegu at y flaenraglen waith:-

(i) Cysoni'r trothwyon o ran rhoddion / lletygarwch ar draws holl Awdurdodau Cymru;

(ii) Y Datganiad o Weledigaeth – byddai'r eitem hon yn cael ei chynnwys ar agenda'r cyfarfod nesaf;

(iii) Yr ymateb drafft a baratowyd gan y Swyddog Monitro i'r 20 cwestiwn sy'n rhan o ymgynghoriad Adolygiad Penn– byddai'r ymateb drafft yn cael ei ddosbarthu i'r Aelodau, fel y gellid darparu ymateb cydlynus erbyn diwedd mis Ebrill;

(iv) Gweithdy gydag arweinyddion y grwpiau – roedd yn bosib y byddai'r gweithdy yn cael ei gynnal ym mis Mai 2023; byddai hyn yn dibynnu ar ba bryd y byddai'r arweinyddion ac Aelodau'r Pwyllgor ar gael;

(v) Hunanwerthusiad - byddai'n cael ei ddosbarthu ym mis Mai 2023 a byddai'r canlyniadau yn cael eu cyflwyno yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Mehefin 2023.

17 **Unrhyw fater arall y penderfyna'r Cadeirydd fod arno angen sylw brysgan y Pwyllgor**

Dywedodd y Cadeirydd mai hwn fyddai ei chyfarfod olaf fel Cadeirydd a diolchodd i Aelodau'r Pwyllgor a'r Swyddogion am eu gwaith a'u cymorth yn ystod ei chyfnod wrth y llyw. Dymunodd yn dda i'r Cadeirydd newydd wrth iddi ddechrau ar ei chyfnod yn y swydd.

Wrth ymateb, diolchodd y Swyddog Monitro a'r Aelodau iddi am ei holl waith caled a'i hymrwymiad i'r rôl gan nodi bod y Cadeirydd presennol wastad yn wybodus am y materion dan sylw.

Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Moeseg a Safonau a gynhaliwyd ar 28 Mehefin 2023

Cadeirydd: _____

Dyddiad: _____

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

Cofnod o Gamau Gweithredu Cyfarfodydd Pwyllgor Moeseg a Safonau Cyngor Sir Ceredigion 2022-2023*

Diben y Cofnod hwn yw monitro'r camau gweithredu y mae aelodau'r Pwyllgor Moeseg a Safonau wedi cytuno arnynt yn eu cyfarfodydd e.e. lle bo aelodau'r Pwyllgor Moeseg a Safonau wedi gofyn am gyflwyno adroddiad ger eu bron yn y dyfodol, neu wedi gofyn am wybodaeth ar gyfer un o gyfarfodydd y dyfodol.

Er mwyn cael mwy o wybodaeth am y Cofnod o Gamau Gweithredu, cysylltwch â'r Swyddog Safonau.

Diweddarwyd: 18 Ionawr 2023

*Blwyddyn Fwrdeistrefol

Caiff y camau gweithredu sydd wedi'u nodi mewn gwyrded ac sydd wedi'u cwblhau eu tynnu oddi ar y Cofnod Gweithredu dilynol.

Rhif	Dyddiad Cyfarfod y Pwyllgor Moeseg a Safonau	Eitem	Nodwyd/ Sylwadau	Camau Gweithredu	Swyddog(i on) sy'n gyfrifol am y cam gweithredu	Diweddariad ar y datblygiadau	I'w adrodd nesaf	Wedi ei gwblhau?
1	25/1/23	Trafod gydag arweinwyr y pleidiau ddulliau o hybu a chynnal safonau uchel o ran ymddygiad gan Aelodau Cyngor Sir Ceredigion gan gynnwys y dyletswyddau sy'n ofynnol o dan Adrannau 62-63 o Ddeddf Llywodraeth Leol		Gwneud trefniadau i ddarparu hyfforddiant gloywi ar y Cod yn fuan	Swyddog Monitro / LE	Trefnwyd ar gyfer 18 Mai 2023		

		ac Etholiadau (Cymru) 2021						
3	25/1/23	Cysoni'r trothwyon ar gyfer rhoddion / lletygarwch ar draws pob Awdurdod yng Nghymru	CYTUNWYD: Bod amrywiaeth leol yn dderbyniol, er y cytunir mewn egwyddor â'r syniad o gysondeb.	Dylai'r trothwy ar gyfer rhoddion i Aelodau'r Cyngor a Swyddogion fod yn cyd-fynd â'i gilydd. Bydd y Pwyllgor yn ystyried y cynnig hwn ymhellach a bydd yn cael ei roi yn y Flaenraglen Waith i'w ystyried. Felly hefyd, o bosib, gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, yn ôl yr angen. Dim ond y Cyngor all wneud newidiadau i'r Côt.	Swyddog Monitro / LE	Anfonwyd e-bost at Swyddog Monitro / NJ ar 17/2/23	15/11/23	
4	25/1/23	Hunanwerthuso'r Pwyllgor Moeseg a Safonau	CYTUNWYD i roi rhagor o ystyriaeth i'r hunanwerthuso o ran cael gwared ar yr opsiwn canolig yn yr holiadur hunanwerthuso ac ychwanegu cwestiwn ar effeithiolrwydd y Pwyllgor o ran llwyth gwaith agenda'r pwyllgor.	Rhagor o sylwadau gan yr Aelodau 16/2/23	LE	Derbyniwyd ymatebion. Bydd yr hunanwerthusiad yn cael ei anfon at Aelodau ym mis Mai 2023. Anfonwyd yr holiadur at Aelodau.	5/6/2023	

5		Adolygu'r Datganiad o Weledigaeth		Rhoddodd yr Aelodau eu barn dros e-bost	LE	Adroddwyd i'r Pwyllgor Moeseg a Safonau ar 3/4/23	3/4/23	
6	3/4/23	Templed ar gyfer Arweinwyr y Grwpiau Gwleidyddol	Addaswyd paragraff 12. Anfonwyd y templed at arweinwyr y grwpiau i'w lenwi. Trefnwyd gweithdy ar gyfer aelodau'r Pwyllgor Moeseg a Safonau ac arweinwyr y grwpiau ar 15/5/23	EP / LE				
7	3/4/23	Penodi Is-Gadeirydd		Gohiriwyd tan y cyfarfod nesaf		Cadarnhaodd JW y byddai'n fodlon aros yn Is-gadeirydd hyd nes i'w gyfnod yn y swydd ddod i ben	5/6/23	
8	3/4/23	Adolygu'r Datganiad o Weledigaeth		CYTUNWYD i ohirio'r penderfyniad ynghylch geiriad y datganiad fel y gellid ystyried y cynnig i ychwanegu'r geiriau 'busnesau a sefydliadau' ar ôl 'bobl'.	Swyddog Monitro / Cadeirydd	Wedi'i osod yn y Flaenraglen Waith ar gyfer y cyfarfod nesaf	5/6/23	
9	3/4/23	Gweddarlledu gwrandawiadau'r Pwyllgor		Rhannu recordiadau o weddarlliediadau	LME	Wedi rhannu dolenni presennol		

		Moeseg a Safonau mewn awdurdodau eraill		gan awdurdodau eraill, at ddibenion hyfforddi		gyda'r Swyddog Monitro		
10	3/4/23	Hyfforddiant gloywi ar y Cod Ymddygiad ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned		I'w gynnig i Gynghorau Tref a Chymuned yn 2024	DJ / MO			
11	3/4/23	Ymgynghoriad ynghylch adroddiad Penn		Bydd ymateb drafft i'r 20 cwestiwn a baratowyd gan y Swyddog Monitro yn cael ei gylchredeg ymhlith yr Aelodau	MO	Dosbarthwyd i Aelodau'r Pwyllgor Moeseg a Safonau drwy e-bost a'u llwytho ar Teams er mwyn cael mewnbwn gan yr Aelodau. Gofynnwyd am ymatebion erbyn 30 Ebrill		



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

CAIS I'R PWYLLGOR MOESeg A SAFONAU AM OLLYNGIAD

Gwybodaeth

Darllenwch gynnwys y siart llif a fydd yn eich helpu i benderfynu a oes angen gollyngiad arnoch.

Dylai Cyngorwyr fod yn ymwybodol o'r Cod Ymddygiad a'i gynnwys. Os ydych chi'n ansicr ynglŷn ag unrhyw beth, mae croeso ichi gysylltu â'r Swyddog Monitro.

Dylech sicrhau mai **DIM OND UN** mater sydd dan sylw ar bob ffurflen. Os oes mwy nag un mater (achosion gwahanol) dylech ddefnyddio ffurflenni ar wahân ar eu cyfer.

Os oes arnoch angen gollyngiad ar gyfer Cyngor Tref/Cymuned **A'R** Cyngor Sir mae rhaid defnyddio **gwahanol** ffurflen am bob cais.

Anfonwch y ffurflen wedi'i chwblhau i:

moesegasafonau@ceredigion.llyw.cymru / ethicsandstandards@ceredigion.gov.uk

Moeseg a Safonau
Neuadd Cyngor Ceredigion,
Penmorfa,
Aberaeron,
Ceredigion,
SA46 0PA
Ffôn: 01545 570881

Am ragor o wybodaeth neu gyngor, cysylltwch â:

Swyddog Monitro - Elin Prysor
Neuadd Cyngor Ceredigion,
Penmorfa,
Aberaeron,
Ceredigion,
SA46 0PA

SwyddogMonitro@ceredigion.gov.uk / MonitoringOfficer@ceredigion.gov.uk

Tudalen 22

Ffurflen diwygiedig 23/03/20



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

CAIS I'R PWYLLGOR MOESEG A SAFONAU AM OLLYNGIAD

Mae'n RHAID cwblhau pob rhan o'r ffurflen. Darllenwch y Canllawiau wrth lanw'r ffurflen.

1. EICH MANYLION

Eich enw llawn:
John Erfyl Roberts

Cyngor:

Sir:

Tref/Cymuned:

Enw eich Cyngor: Cyngor Sir Ceredigion

Eich cyfeiriad:
9 Maeshendre, Waunfawr, Aberystwyth

Cod post: SY23 3PR

Rhif(au) ffôn: 07896 782 184

Cyfeiriad e-bost: johner@ceredigion.co.uk

2. MANYLION EICH BUDDIANT

Beth yw'r mater y bydd y Cyngor yn ei drafod?

Rhybudd gynnig sydd i ddod ynghylch TB.

Tudalen 23

Ffurflen diwygiedig 23/03/20

Disgrifiwch eich buddiant sy'n rhagfarnu yn y mater uchod, gan gynnwys eich cysylltiad chi ag ef:

Mae fy mrodyr yn berchen ar dir yng Ngoginan. Mae'r tir wedi ei rannu'n ddwy.

Mae un brawd wedi rhoi ei dir i gyd ar les i wahanol bobl nad wyf i'n eu hadnabod.

Mae'r brawd arall yn cadw ychydig o geffylau dim ond i bori.

Nid oes buddiant gen i yn y tir oni bai am wirfoddoli i fwydo'r ceffylau tra bod fy mrawd yn adfer ei iechyd ar ôl llawdriniaeth ddifrifol.

Credaf nad yw ceffylau yn cael eu hystyried yn greadur amaethyddol.

Ble caiff y mater uchod ei drafod? (er enghraifft, Cabinet, Cyngor Sir, Cyngor Tref/Cymuned) ⁽²⁾

Sir - Cyngor

Sir – Cabinet

Sir - Pwyllgor

Tref / Cymuned

Arall

(rhowch fanylion)

Craffu

Tudalen 24

Ffurflen diwygiedig 23/03/20

I ba baragraff o'r Cod Ymddygiad i Gynghorwyr (argraffiad 20 Mai 2016) y mae'r buddiant hwn yn berthnasol?

Paragraff 10 (2) (a) os yw'n gysylltiedig â'r canlynol, neu'n debygol o effeithio arnynt —

- (i) unrhyw gyflogaeth yr ydych yn ymgymryd â hi neu fusnes yr ydych yn ei redeg;
- (ii) unrhyw berson sy'n eich cyflogi neu sydd wedi eich penodi, unrhyw ffyrm yr ydych yn bartner ynddi neu unrhyw gwmni yr ydych yn gyfarwyddwr arno ac yn derbyn tâl;
- (iii) unrhyw berson, ac eithrio eich awdurdod, sydd wedi rhoi taliad i chi mewn cysylltiad â'ch ethol neu mewn cysylltiad ag unrhyw dreuliau a dynnwyd gennych wrth i chi gyflawni eich dyletswyddau fel aelod;
- (iv) unrhyw gorff corfforaethol y mae ganddo le busnes neu dir yn ardal eich awdurdod, ac y mae gennych chi fuddiant llesiannol mewn dosbarth o warannau sydd gan y corff hwnnw ac sy'n werth mwy na'r gwerth enwol o £25,000 neu un ganfed ran o gyfanswm cyfalaf cyfrannau dyroddedig y corff hwnnw;
- (v) unrhyw gontract am nwyddau, gwasanaethau neu waith neu weithfeydd a wnaed rhyngoch chi, rhwng ffyrm yr ydych yn bartner ynddi, neu rhwng cwmni yr ydych yn gyfarwyddwr arno ac yn derbyn tâl, neu rhwng corff o'r math a ddisgrifir yn is-baragraff (iv) uchod a'ch awdurdod;
- (vi) unrhyw dir y mae gennych fuddiant llesiannol ynddo ac sydd yn ardal eich awdurdod;
- (vii) unrhyw dir y mae eich awdurdod yn landlord arno ac y mae ffyrm yr ydych yn bartner ynddi, cwmni yr ydych yn gyfarwyddwr arno ac yn derbyn tâl, neu gorff o'r math a ddisgrifir yn is-baragraff (iv) uchod yn denant arno;
- (viii) unrhyw gorff yr ydych wedi eich ethol, eich penodi neu eich enwebu gan eich awdurdod i fod arno;
- (ix) unrhyw —
- (aa) awdurdod cyhoeddus neu gorff sy'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus;
- (bb) cwmni, cymdeithas ddiwydiannol a darbodus, elusen, neu gorff arall a chanddo ddibenion elusennol;
- (cc) corff y mae dylanwadu ar farn neu bolisi cyhoeddus ymhlith ei brif ddibenion;
- (chch) undeb llafur neu gymdeithas broffesiynol; neu
- (dd) clwb preifat neu gymdeithas breifat sy'n gweithredu o fewn ardal eich awdurdod, yr ydych yn aelod ohono neu ohoni neu mewn safle rheolaeth neu reoli cyffredinol ynddo neu ynddi;

Tudalen 25

Ffurflen diwygiedig 23/03/20

(x) unrhyw dir yn ardal eich awdurdod y mae gennych drwydded (ar eich pen eich hun neu ar y cyd ag eraill) i'w feddiannu am 28 o ddiwrnodau neu fwy;

Paragraff 10 (2) (b) pe byddai'n rhesymol ystyried penderfyniad arno yn benderfyniad a fyddai'n effeithio —

(i) ar eich llesiant neu eich sefyllfa ariannol, neu lesiant neu sefyllfa ariannol person yr ydych yn byw gydag ef, neu unrhyw berson y mae gennych gysylltiad personol agos ag ef;

(ii) ar unrhyw gyflogaeth yr ymgwymerir â hi neu fusnes a redir gan bersonau fel a ddisgrifir yn 10(2)(b)(i);

(iii) ar unrhyw berson sy'n cyflogi neu sydd wedi penodi'r cyfryw bersonau ag a ddisgrifir yn 10(2)(b)(i), unrhyw ffyrn y mae'r cyfryw bersonau'n bartneriaid ynddi, neu unrhyw gwmni y maent yn gyfarwyddwyr arno;

(iv) ar unrhyw gorff corfforaethol y mae gan bersonau fel a ddisgrifir yn 10(2)(b)(i) fuddiant llesiannol mewn dosbarth o warannau sy'n werth mwy na'r gwerth enwol o £5,000; neu

(v) ar unrhyw gorff a restrir ym mharagraffau 10(2)(a)(ix)(aa) i (dd) y mae personau a ddisgrifir yn 10(2)(b)(i) mewn safle rheolaeth neu reoli cyffredinol ynddo,

a hynny i raddau mwy—

(aa) yn achos awdurdod â dosbarthiadau etholiadol neu wardiau, na'r rhelyw o bobl eraill sy'n talu'r dreth gyngor, bobl eraill sy'n talu ardrethi neu breswylwyr eraill yn y dosbarth etholiadol neu'r ward, yn ôl y digwydd, y bydd y penderfyniad yn effeithio arnynt; neu

(bb) ym mhob achos arall, na'r rhelyw o bobl eraill sy'n talu'r dreth gyngor, o bobl eraill sy'n talu ardrethi neu breswylwyr eraill yn ardal yr awdurdod.

Paragraff 13 Bydd gennych hefyd fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes sydd gerbron un o bwyllgorau trosolygu a chraffu eich awdurdod (neu un o is-bwyllgorau pwyllgor o'r fath) —

(a) os bydd y busnes hwnnw'n gysylltiedig â phenderfyniad a wnaed (p'un a gafodd ei weithredu ai peidio) neu gam a gymerwyd gan weithrediaeth, bwrdd, neu un arall o bwyllgorau, is-bwyllgorau, cyd-bwyllgorau neu o gyd-is-bwyllgorau eich awdurdod; a

(b) os oeddech chi, ar yr adeg pan wnaed y penderfyniad neu pan gymerwyd y cam, yn aelod o'r weithrediaeth, y bwrdd, y pwyllgor, yr is-bwyllgor, y cyd-bwyllgor neu'r cyd-is-bwyllgor a grybwyllir yn is-baragraff (a) a'ch bod chi'n bresennol pan wnaed y penderfyniad hwnnw neu pan gymerwyd y cam hwnnw.

3. GWYBODAETH I ATEGU'CH CAIS

Nodwch unrhyw wybodaeth ychwanegol (cefndir/ffeithiol) i gadarnhau/esbonio eich buddiant ymhellach. Bydd hyn yn cynorthwyo'r Pwyllgor wrth iddo drafod eich cais am ollyngiad.
(Os na chwblheir y rhan hon, fe gaiff y ffurflen gais ei dychwelyd atoch)

Rwyf wedi gwirfoddoli i fwydo ceffylau fy mrawd tra ei fod e'n adfer ei iechyd ar ôl llawdriniaeth ddifrifol yn Nhreforys.
 Nid wyf ar fy ennill yn ariannol ar unrhyw adeg. Rwy'n bwydo'r ceffylau am fy mod yn gofalu am eu lles.

(defnyddiwch dudalen ychwanegol ar wahân os oes angen)

4. SAIL AR GYFER RHOI GOLLYNGIAD

Mae Rheoliadau Pwyllgor Safonau (Rhoi Gollyngiadau)(Cymru) 2001 yn pennu o dan ba amgylchiadau y gall y Pwyllgor Moeseg a Safonau roi gollyngiad. Nodir isod y sail ar gyfer rhoi gollyngiad.

Ar ba sail o blith y canlynol y credwch y dylid rhoi gollyngiad yn yr achos hwn? Ticiwch bob bocsy'n briodol.

(a) os oes gan ddim llai na hanner aelodau'r awdurdod perthnasol neu hanner aelodau un o bwyllgorau'r awdurdod (yn ôl fel y digwydd) y mae'r busnes i gael ei ystyried ganddo fuddiant sy'n berthnasol i'r busnes hwnnw;	<input type="checkbox"/>
(b) os oes gan ddim llai na hanner aelodau gweithrediaeth arweinydd a chabinet y mae'r busnes i gael ei ystyried ganddo fuddiant sy'n berthnasol i'r busnes hwnnw a bod naill ai paragraff (d) neu baragraff (e) hefyd yn gymwys;	<input type="checkbox"/>
(c) yn achos cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol, os byddai anallu aelod i gymryd rhan yn tarfu ar gydbwysedd gwleidyddol yr awdurdod perthnasol neu'r pwyllgor o'r awdurdod y mae'r busnes i'w ystyried ganddo i'r fath raddau nes y byddai'r canlyniad yn debygol o gael ei effeithio;	<input type="checkbox"/>
(d) os yw natur buddiant yr aelod yn gyfryw fel na fyddai cyfranogiad yr aelod yn y busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo yn niweidio hyder y cyhoedd yn y modd y mae busnes yr awdurdod perthnasol yn cael ei gynnal;	<input checked="" type="checkbox"/>
(e) os yw'r buddiant yn gyffredin i'r aelod ac i gyfran arwyddocaol o'r cyhoedd;	<input checked="" type="checkbox"/>
(f) os oes cyfiawnhad i'r aelod gymryd rhan yn y busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo oherwydd rôl neu arbenigedd penodol yr aelod;	<input type="checkbox"/>
